

CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

01248 602131

CyngorLlanllechid@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn 67 Bro Emrys, Talybont ar nos Iau 11 Mai, 2017 am 1900

1. PRESENNOL:

Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Margaret Fernley

Y Cynghorydd Alun Thomas

Y Cynghorydd Megan Tomos

Y Cynghorydd Wyn Bowen Harris

Y Cynghorydd Myfanwy Jones

Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd David Jones

Y Cynghorydd Kevin Williams

Y Cynghorydd Jên Morris

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. David Jones

2. Ymddiheuriadau gan y Cyng. Evan Jones

3. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ebrill 2017.

4. Materion yn codi o'r cofnodion

Sedd yn Corbri: Adroddwyd bod y fainc wedi cael ei daro gan gar, ac efallai byddai'n werth gosod y sedd mewn concriid. Y Cyngor yn hapus i ad-dalu unrhyw gostau ynghlwm â gwneud hyn.

Ystâd Penrhyn – adroddwyd bod polion wedi ymddangos o gwmpas yr ardal.

Penderfynwyd bydd y Cyng. Margaret Fernley yn cael sgwrs i weld beth yw pwrpas y polion. Darganfuwyd mai'r 'Coastal Community Fund' oedd yn gyfrifol am y polion. Penderfynwyd ymchwilio fwy am rhain.

5. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

Partneriaeth Ogwen

£1595.27

Swyddfa Archwilio Cymru

£468.15

6. Gohebiaeth

Cyflwynwyd-llythyr gan Cyngor Gwynedd, cyfle i enwebu 'Aelod Cymunedol' ar Bwyllgor Safonau Gwynedd. Nodwyd yr ohebiaeth.

Cyflwynwyd- llythyr gan Gareth Llwyd-cwyn yn erbyn yr arwydd 'Tynal Tywyll' sy'n defnyddio'r enw llafar lleol yn hytrach na 'Twnnel Pendinas'. Penderfynwyd ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn awgrymu dylai'r arwydd ddangos 'Twnnel Pendinas-y twnnel tywyll'.

Cyflwynwyd- llythyr gan Parc Cenedlaethol Eryri-Rhybydd ymlaen llaw o Adolygiad Ffurff Fer o Ddrafft Adnau Cynllun Datblygu Lleol Eryri. Nodwyd yr ohebiaeth.

Cyflwynwyd- e-bost gan Dafydd Williams, Arriva-ymateb i bryderon y Cyngor ynglŷn a diddymu gwasanaeth rhif 66. Penderfynwyd bydd cyfarfod yn ddefnyddiol i drafod gwaith ymchwil y Cyngor ac ystadegau Arriva.

Cyflwynwyd- llythyr gan Parc Cenedlaethol Eryri-gwahoddiad i gyfarfod blynyddol gyda Chynghorau Cymuned yr ardal. Y Cyngor. Wyn Bowen Harris, Kevin Williams a David Jones i fynychu'r cyfarfod yng Nghapel Curig 20.06.17 am 6.30yh.

Cyflwynwyd- llythyr gan Parc Cenedlaethol Eryri- cyfle i gael 4 coeden afal am ddim. Penderfynwyd bydd y Cyngor yn hapus i dderbyn y coed.

Cyflwynwyd- e-bost gan Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru – cyfle i rannu sylwadau ar rai o faterion y Panel. Penderfynwyd anfon y sylwadau y dylid dod ag oedran bleidleisio i lawr i 16 oed, gan fod pobl ifanc yr oedran yma yn gallu gweithio a thalu treth ac felly dylent hefyd gael yr hawl i bleidleisio.

Cyflwynwyd- llythyr gan AON – rhybudd adnewyddu yswiriant blynyddol y Cyngor. Penderfynwyd ei adnewyddu oni bai bydd pris rhatach am bolisi cyfatebol yn dod i law.

7. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Dim i'w adrodd

8. Penderfyniadau Cynllunio:

Dim ceisiadau i'w ystyried.

Ceisiadau Cynllunio:

C17/0384/21/LL

Ger y Llan, Ponc y Lon, Tal y Bont, Bangor

Addasiadau i'r tô er darparu grisiau, ystafell gawod a llofft ar y llawr cyntaf

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad

9. Llwybrau

Y Cyng. Margaret Fernley wedi darparu rhestr o'r llwybrau sydd angen sylw. Y Clerc i'w anfon ymlaen i'r contractwr.

10. Materion brys

Y Mynydd – adroddwyd bod pobl o tu allan i'r ardal yn pori ar y mynydd. Gobeithio fydd pethau yn newid yn dilyn ymateb yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Allt Tŷ'n Hendre – adroddwyd bod y teiars sydd wedi eu 'dympio' dal yno. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd unwaith eto.

Archwilydd mewnol – penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i barhau gyda'r gwasanaeth archwilio gan Parry & Co, Rhosneigr.

Diolchwyd i'r Cyng. Myfanwy Jones am gael cynnal y cyfarfod yn ei chartref ar fyr-rybudd.